

WFAC 21/04/03

I'w drafod

Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) – Adroddiad y Cyfarwyddwr

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig gan Gyfarwyddwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru yn adrodd ar faterion perthnasol a allai fod o ddiddordeb i aelodau Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) yn ymwneud â'r cyfnod 03/03/21 i 22/04/21.
2. Bydd Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru yn ategu'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn gyda diweddariad ar lafar, lle bo'n briodol.
3. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:
 - **nodi'r** diweddariad;
 - **gwahodd** y Cyfarwyddwr i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cyswllt: Lucy Boruk

Lucy.Boruk@food.gov.uk

WFAC 21/04/03

I'w drafod

Adroddiad Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru i'r Pwyllgor – Ebrill 2021

1 Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd

- 1.1 Daeth yr ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yng Nghymru i ben ar 25 Mawrth. Daeth naw ymateb i law, gan gynnwys ymateb ar ran Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru a'r 22 awdurdod lleol, ac ymatebion gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig ac UK Hospitality. Rydym ni wrthi'n ystyried yr ymatebion. Bydd ein hymateb yn cael ei rannu o fewn tri mis i'r ymgynghoriad ddod i ben.

2 Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

- 2.1 Mae'r ASB yng Nghymru yn arwain ar brosiect digidol sy'n defnyddio technoleg adnabod delweddau i ganfod y defnydd o sticeri/sgoriau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) ar-lein. Mae'r prosiect wedi symud o'r cam profi cysyniad i ddatblygiad pellach a bydd yn llywio penderfyniadau ar welliant posibl y cynllun cyfredol yng Nghymru i arddangos sgoriau ar-lein.

3 Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW)

- 3.1 Disgwylir i'r grŵp partneriaeth gynnal ei gyfarfod nesaf ar 23 Mehefin. Mae is-grŵp ymateb i COVID-19 SSAFW wedi'i gau'n ffurfiol, a bydd is-grŵp adfer yn cymryd ei le. Pwrpas yr is-grŵp adfer yw darparu fforwm i'r ASB, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd yng nghyd-destun y materion gweithredol sy'n gysylltiedig ag adfer yn dilyn y pandemig COVID-19 o ran cyflwyno cyfraith ac ymarfer bwyd a bwyd anifeiliaid, a darparu gwasanaethau yng Nghymru.

4 Rhaglen ymgysylltu ag ysgolion

- 4.1 Mae rhaglen ymgysylltu ag ysgolion yr ASB yng Nghymru wedi'i haddasu er mwyn gallu ei chyflwyno ar-lein, yn ogystal â darparu sesiynau wyneb yn wyneb pan fydd amodau'n caniatáu. Mae'r addasiad wedi'i groesawu gan ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n parhau i elwa ar weithdai sy'n lledaenu negeseuon diogelwch bwyd allweddol.

<https://www.food.gov.uk/safety-hygiene/food-hygiene-resources-for-school-children-in-wales>

5 Hyfforddiant Awdurdodau Lleol

- 5.1 Trwy gydol mis Ebrill, mae'r ASB yng Nghymru wedi bod yn cynnal hyfforddiant bwyd anifeiliaid ar-lein i awdurdodau lleol ar y materion cyfredol sy'n effeithio ar fwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio. Mae cyrsiau diweddar wedi cynnwys Hylendid Bwyd Anifeiliaid Cynhyrchu Cynradd/Labelu Bwyd Anifeiliaid, bwyd dros ben a ddefnyddir i gynhyrchu bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid

anwes amrwd. Mae niferoedd da o swyddogion awdurdodau lleol wedi cymryd rhan yn y cyrsiau.

6 Ymgysylltu'n allanol

6.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor (04/0321), rydw i wedi cymryd rhan yn y cyfleoedd ymgysylltu canlynol a allai fod o ddiddordeb i aelodau:

- 9/10 Mawrth – Y Gynhadledd Dadansoddi Rheoleiddio Bwyd Ryngwladol a archwiliodd y nod o 'gyflawni rhagoriaeth reoleiddiol yn yr unfed ganrif ar hugain'.
- 10/11 Mawrth – Cynhadledd Mewnwelediad Bwyd a Diod Cymru; rhaglen 3 diwrnod a oedd yn canolbwyntio ar 'dueddiadau newydd ar gyfer twf o'r newydd'
- 18 Mawrth – Gweminar Chwarae Teg 'Cymdeithas yw'r Anabled': Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer eich busnes?
- 23/24 Mawrth – Symposiwm Gorsensitifrwydd i Fwyd yr ASB; ehangodd y digwyddiad hwn ddealltwriaeth o orsensitifrwydd i fwyd trwy archwilio heriau rheoli alergenau wrth arddangos arfer gorau a chefnogi busnesau bwyd i sicrhau cydymffurfiaeth. Cynrychiolwyd y digwyddiad yn dda gan y diwydiant, grwpiau defnyddwyr, asiantaethau gorfodi a chlinigwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://fsahypersensitivitysymposium2021.co.uk/home>
- 8 Ebrill – Sesiwn gynefino ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor.
- 19 Ebrill – Is-grŵp adfer COVID-19 SSAFW. Sefydlu'r fforwm ar gyfer trafod cynllun amlinellol yr ASB ar gyfer adfer, yn ogystal â materion gweithredol parhaus yn ymwneud ag adfer rheolaethau swyddogol bwyd a bwyd anifeiliaid, ac
- 20 Ebrill – Cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod cydweithredu a chynllunio adferiad ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â diwedd y cyfnod pontio, cydymffurfiaeth a gorfodi COVID-19, a gweithgareddau busnes fel arfer.
- 22 Ebrill – Cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod dosbarthiad dyfroedd pysgod cregyn a ffactorau sy'n pennu ansawdd dŵr yn nyfroedd arfordirol Cymru.

7 Rhannu gwybodaeth

7.1 Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i rhannu â'r aelodau:

- Y blog a gyhoeddwyd gan yr ASB yng ngoleuni Wythnos Wyddoniaeth Prydain 2021 'Pŵer y bobl – Sut mae'r ASB yn bwriadu manteisio ar wyddoniaeth dinasyddion'.

- Cyhoeddiad ffurfiol o benodiadau newydd i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru – [Penodiadau i Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru yr Asiantaeth Safonau Bwyd](#)
- Heddiw mae'r ASB wedi [cyhoeddi](#) canfyddiadau adroddiad sy'n archwilio profiadau pobl o fwyd yn ystod pandemig COVID-19 mewn partneriaeth â'r felin drafod trawsbleidiol, Demos.
- Y pecyn Cynefino ar gyfer aelodau pwyllgor newydd
- Manylion cyfarfod ychwanegol y Pwyllgor ar 19 Mai i fwydo i gyfarfod eithriadol y Bwrdd ar 26 Mai.

Nathan Barnhouse
Cyfarwyddwr, ASB yng Nghymru
16 Ebrill 2021